

Choose an item.

Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	08/03/2017	Amser Time	4.00 pm

Yn bresennol:

Cynrychiolaeth o'r Sector Menter:	
Non Hughes (NH)	William Hughes & co
Mari Faulkner (MF)	Black Lion
Nigel Peacock (NP)	SE
Hayley Carpenter (HC)	
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol/Cymunedol	
Sian Purcell (SP)	Medrwn Môn
Robin Grove-White (RGW)	Menter Mechell
Mark Gahan (MG)	
Jean Baker (JB)	Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Porthaethwy
Seiriol Edwards (SE)	Urdd Gobaith Cymru
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus	
Martin Jardine (MJ)	Grŵp Menai Llandrillo (Cadeirydd)
Trefor Jones (TJ)	Prifysgol Bangor
Molly Lovatt (ML)	NRW
Staff Menter Môn	
Dafydd Gruffydd (DG)	
Jane Davies (JAD)	
Neil Johnstone (NJ)	
Jackie Lewis (JL)	
Bethan Fraser - Williams (BFW)	
Staff Cyngor Sir Ynys Môn	
Eifion L Jones (ELJ)	

Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb, yn enwedig aelodau newydd, i'r cyfarfod.	
2	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau canlynol. Aled Davies Dr Dylan Evans, Alison Hughes	

	Eryl Williams Bryn Jones	
3	Declaration of Interest. Datganodd Hayley Carpenter a Robin Grove-White ddiddordeb yn y prosiect pentrefi digidol a datganodd Mark Gahan ddiddordeb yn y prosiect Digwyddiad Ynni – Cwblhawyd Ffurflen Datganiad	
4	Cofnodion y cyfarfod 8/12/16 Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir Cynigydd: Mari Faulkener Eilydd: Dr Trefor Jones	
5	Materion yn codi <ul style="list-style-type: none"> • Bu dau brosiect a gyflwynwyd ar gyfer sylwadau yn y cyfarfod blaenorol, sef Llangedfni Tref Sy'n Croesawu Beicwyr, a Neuadd Bentref Llanddona, yn llwyddiannus wrth symud ymlaen i'r cam cais llawn. • Comisiynwyd y brandio newydd, a sefydlwyd tudalennau twitter a facebook newydd. 	
6	Adroddiad Cynnydd Dangoswyd cyflwyniadau fideo byr gan fynychwyr yr Amgueddfa 'Dros Dro' (pop up) a digwyddiad Awyr Dywyll i'r cyfarfod. Gellir gweld y rhain yn https://www.facebook.com/Pop-Up-Amgueddfa-Pop-Up-Museums-Trysorau-Mon-Anglesey-treasures-1201945613218501/ a https://www.facebook.com/pg/angleseydarkskies/photos/?ref=page_internal Gwnaeth Eifion Jones sylwadau ar agweddau o'r adroddiad. Er yr ymddengys fod y swm a wariwyd yn llusgo tu ôl i'r proffil a ragwelwyd, dylid cofio bod y graff yn dangos gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd mis Chwefror a phroffil hyd at ddiwedd mis Mawrth. Caniateir goddefiad o +/- 15% gan Lywodraeth Cymru ac mae'r staff yn hyderus y bydd hyn yn cael ei fodloni.	
7	Cynigion prosiect Thema 1 a) Eglwysi diangen – Amlinellodd JL y cynnig sy'n cynnwys astudiaeth	

	<p>o ddefnyddiau posibl i eglwysi diangen a fydd yn dod â budd economaidd i'r ardal leol. Cafwyd trafodaeth ynghylch p'un a fyddai astudiaeth yn darparu amrywiaeth o opsiynau. Cyfeiriodd JB at astudiaeth flaenorol eglwysi diangen a wnaed gan yr Eglwys yng Nghymru a chytunodd i anfon copi.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ar werth o £9,500</p> <p>b) Pentrefi Digidol - roedd Futurium wedi cynnal yr astudiaeth gychwynnol a datganodd HC ei diddordeb yn y prosiect. Y cynnig oedd i gynhyrchu cynnwys Realiti Gwell ar draws llwyfannau digidol i gyd-fynd â dathliadau Madam Wen sy'n digwydd ym Mryngwran ym mis Mai. Byddai sganio gwrthrychau ee copi o'r llyfr yn darparu Realiti Estynedig. Soniodd MJ am ei brofiad gyda'r app Aurasma ar ei ffôn a'r mater o werth ychwanegol pecyn pwrpasol. Cytunodd y cyfarfod gynnwys teilyngdod ateb lleol o'i gymharu ag apps presennol yn y gwerthusiad.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig ar werth o £8,000</p> <p>c) Byw a Bod Perfformio (Prosiect cydweithredol) – Cyflwynodd DG y prosiect fel un sy'n cyflwyno'r iaith a'r diwylliant i ymwelwyr. Mae'n brosiect ar y cyd gyda Gwynedd. Dangosodd ddarnau o fideo o brosiect tebyg a redwyd yng Ngwynedd y llynedd. Mae hwn ar gael yn https://www.youtube.com/watch?v=rPIFOQXYJc.</p> <p>Tra'n derbyn gwerth y profiad i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan, roedd yr aelodau'n awyddus i weld y gymuned yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd ac yn pryderu efallai na fuasai ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r cyd-destun oni bai bod rhyw fath o eglurhad dwyieithog yn cael ei ddarparu.</p> <p>Roedd yr is-grŵp wedi trafod sut i werthuso'r effaith ac awgrymodd yr aelodau y gellid gwneud hyn orau drwy ryngweithio gyda'r gynulleidfa.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig ar werth o £26,700</p> <p>Thema 2</p> <p>b) Rhwydwaith Bwyd Agored Môn – dangosodd JD fideo yn</p>	<p>JB i anfon copi o'r astudiaeth i JL</p> <p>Cynnwys teilyngdod ateb lleol o'i gymharu ag apps presennol yn y gwerthusiad.</p>
--	--	---

	<p>cyflwyno'r cysyniad. Gellir gweld hwn yn www.openfoodnetwork.org.uk Bu'r prosiect yn llwyddiannus mewn ardaloedd eraill, gan gynyddu cyfranogiad mewn cyflenwi cynnyrch lleol ac yn ysgogi galw. Roedd rhai aelodau'n bryderus o ran cynnal ansawdd a tharddiad tra bod eraill yn awgrymu y gellid ei dreialu i ddechrau heb orfod talu costau cyfieithu. Fodd bynnag, gan mai'r bwriad oedd lansio hwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol, nid oedd hyn yn opsiwn ymarferol.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig ar werth o £19,000</p> <p>c) Pecyn Siop Dros Dro (Pop up) – Amlygodd JD y camgymeriad yn y cynnig a ddisbarthwyd ac y dylai fod yn £15,000 nid £1,500. Gallai hwn fod yn fodel ar gyfer gweithredu'r rhwydwaith bwyd agored gan y byddai'n hwyluso cydweithrediad rhwng cynhyrchwyr. Roedd manwerthwr bach hefyd yn awyddus i gydweithio. Awgrymodd MJ gysylltu ag adran bwyd a diod LIC i weld os y gellid defnyddio eu brandio 'dros dro' (pop up). Hefyd soniodd am faterion yn ymwneud â rhoi prawf, glanhau a materion cyfreithiol yr oedd angen eu hystyried. Eglurodd JD y byddai'r manwerthwr yn cymryd cyfrifoldeb am yr agweddau hynny. Eglurodd hefyd nad oedd rhaid i gynhyrchwyr fod yn aelodau o Gorau Môn i gymryd rhan.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig ar werth o £15,000</p> <p>d) Grŵp Tyfwyr – Nod y prosiect yw cael mwy o bobl i dyfu cynnyrch yn lleol mewn gwahanol feintiau. Byddai'n cydweithredu â'r tyfwyr llyisiau lleol Medwyn Williams. Yn y cam cyntaf mae'n gobeithio annog 20-30 o dyfwyr newydd.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig ar werth o £4,600</p> <p>Thema 3</p> <p>e) Gwneud gofod – eglurodd BFW fod hwn yn ddilyniant ar y prosiect astudiaeth llyfrgell a fyddai'n gweithio gyda'r grwpiau cymunedol dynodedig i edrych ar beth arall y gellid ei wneud o ran defnydd o'r adeiladau. Byddai'r grwpiau cymunedol yn cael eu gwahodd i wahanol weithgareddau treial (roedd sampl o weithgareddau posibl awgrymedig wedi ei baratoi). Yna byddai hyn yn cael ei</p>	
--	---	--

	<p>ddefnyddio i lywio cynlluniau busnes. Cynigodd SP gymorth Medrwn Môn gyda chyngor ar hyfforddiant a chysylltiadau os oedd capasiti gwirfoddolwyr yn broblem.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig ar werth o £30,000</p> <p>f) Darpariaeth Gofal Dydd Gwell – eglurodd BFW y byddai'r prosiect hwn yn cyfuno gweithgareddau Heneiddio'n Dda gyda gwasanaeth nysr. Byddai hyn yn galluogi pobl sydd ag anghenion gofal iechyd ychwanegol i gymryd rhan yn y gweithgareddau Heneiddio'n Dda a hefyd yn rhoi cyfle i fynychwyr rheolaidd fanteisio ar e.e. profion pwysedd gwaed, diabetes ayb. Byddai atgyfeiriadau at feddygon teulu ac asiantaethau eraill, e.e. ciropodydd, yn cael eu monitro. Byddai'r model cyntaf o'i fath yng Nghymru. Teimlai aelodau ei fod yn syniad da.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig ar werth o £6,886</p> <p>Thema 4</p> <p>g) Digwyddiad Ynni Sioe Môn – eglurodd NJ y byddai hyn yn gyfle i arddangos prosiectau ynni a wnaed hyd yma ac i ymgysylltu â thrigolion lleol yn y gobaith o gysylltu eu cefnogaeth â phrosiectau pellach posibl. Holodd yr Aelodau a ellid cael cyfle i arddangos themâu Leader eraill hefyd, a thrwy hynny rannu'r gost.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ar werth o £5,000</p> <p>Thema 5</p> <p>Byw a Bod Digidol (cydweithredol) Eglurodd DG fod y prosiect wedi'i anelu at newid canfyddiadau pobl ifanc nad oes unrhyw gyfleoedd digidol yn lleol neu eu bod ddim ond i "geeks". Byddai'n gweithio gyda phobl ifanc 17 - 25 oed, a fyddai'n cael eu gosod ar leoliadau gyda chwmnïau digidol yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac a fyddai'n cael profiadau sy'n anelu at atgyfnerthu'r syniad o'r ardal fel lle gwych i fyw. Byddai unrhyw gynnwys a gynhyrchwyd ar gael at ddibenion marchnata. Gofynnodd yr aelodau sut y byddai cyfranogwyr yn cael eu dewis ac esboniodd DG y byddai'n wahoddiad agored yn cael ei ddilyn gan gyfweiliad. Awgrymodd MJ y gallai cynllun tebyg gael ei ystyried ar gyfer sectorau eraill a chymharodd ef â'r arfer o gynnis interniaethau mewn dinasoedd</p>	
--	--	--

	<p>mwy. Cefnogwyd y cynnig ar werth o £20,000</p>	
8	<p>Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF)</p> <p>Daeth dau gais i law ar gyfer sylwadau: Canolbwynt hyfforddiant a chyflogaeth Môn – I sefydlu canolbwynt hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghaergybi. Prosiect Cymunedol Cildwrn – i addasu'r adeilad ar gyfer defnydd y gymuned yn ystod yr wythnos. Roedd y cyfarfod yn gefnogol i'r ddau gais</p>	
9	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Nododd JB ei bod yn drist nad yw Gŵyl Bwyd Môr Menai yn cael ei chynnal eleni. Esboniodd JD fod hyn yn ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys diffyg cyllid ac argaeledd gwirfoddolwyr</p> <p>Teimlai NJ ei bod yn bwysig cael cynrychiolydd newydd o CSYM ers i Aled Davies adael.</p>	
10	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>Ar hyn o bryd 3^{ydd} Mai, fodd bynnag, , nododd y cadeirydd nad oedd ar gael ar y dyddiad hwnnw, felly bydd angen ei aildrefnu.</p>	
	Gorffen	